**Amlinelliad dros dro o gwmpas Modiwl 6**

Bydd y modiwl hwn yn archwilio effaith pandemig Covid-19 ar y sector gofal cymdeithasol oedolion a ariennir yn gyhoeddus ac yn breifat (y "Sector Gofal") yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd yn ystyried canlyniadau penderfyniadau'r llywodraeth ar y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y Sector Gofal. Mae hyn yn cynnwys gofal oedolion a chartrefi preswyl gan gynnwys gofal a ddarperir yn y cartref (ond nid gofal a ddarperir mewn canolfannau gofal dydd neu mewn tai â chymorth) a'r penderfyniadau i ryddhau capasiti mewn ysbytai drwy ryddhau cleifion i gartrefi gofal oedolion a phreswyl. Bydd yn mynd i'r afael â'r camau a gymerwyd mewn cartrefi gofal i oedolion a chartrefi preswyl i atal lledaeniad Covid-19 ac yn archwilio gallu'r sector gofal oedolion i ymateb i'r pandemig. Bydd y modiwl hefyd yn ystyried effaith y pandemig ar breswylwyr a'u hanwyliaid a'r effaith ar staff sy'n gweithio yn y Sector Gofal.

Yn benodol, bydd y modiwl hwn yn archwilio:

1. Effaith y pandemig ar brofiad pobl o'r Sector Gofal. Bydd hyn yn canolbwyntio ar breswylwyr a'u hanwyliaid a'r rhai sy'n gweithio yn y Sector Gofal a bydd yn cynnwys ystyried yr effeithiau anghyfartal arnynt.

2. Strwythur y Sector Gofal a'r cyrff allweddol sy'n ymwneud â'r DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar ddechrau ac yn ystod y pandemig. Bydd hyn yn cynnwys lefelau staffio a nifer y gwelyau yn union cyn y pandemig.

3. Y penderfyniadau allweddol a wneir gan Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig mewn perthynas â'r Sector Gofal, gan gynnwys y penderfyniadau sy'n ymwneud â rhyddhau pobl o ysbytai i gartrefi gofal i oedolion a chartrefi phreswyl yng nghamau cynnar y pandemig.

4. Rheoli'r pandemig mewn cartrefi gofal i oedolion a chartrefi preswyl. Bydd hyn yn cynnwys y mesurau sy'n atal lledaeniad Covid-19, megis mesurau atal a rheoli heintiau, profion ar gyfer Covid-19, argaeledd a digonolrwydd cyfarpar diogelu personol (PPE), cyfyngiadau ar fynediad gan/at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac ymweliadau gan anwyliaid.

5. Y defnydd o Peidiwch â Cheisio Dadebru Cardio-pwlmonaidd (DNACPRau) a chyfathrebu â phreswylwyr a'u hanwyliaid am gyflwr a thriniaeth y preswylydd gan gynnwys trafodaethau a phenderfyniadau am DNACPRau.

6. Y newidiadau i'r cyfundrefnau arolygu rheoleiddiol o fewn y Sector Gofal.

7. Marwolaethau yn ymwneud â haint Covid-19 gan gynnwys marwolaethau preswylwyr a staff.

8. Mesurau atal a rheoli heintiau ar gyfer y rhai sy'n darparu gofal yn y cartref, gan gynnwys gan ofalwyr di-dâl.